

**Cronfa Bensiwn Gwynedd  
(Cyngorau Gwynedd, Conwy a Môn)**

**Adrannau 30 a 31  
DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,  
RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) (DIWYGIO) 2018  
Archwilio Cyfrifon am y Flwyddyn Ariannol 2019/2020  
RHYBUDD AM HAWLIAU CYHOEDDUS**

1. Gall y personau sydd â diddordeb yn y materion hyn archwilio a gwneud copiâu o gyfrifon yr uchod am flwyddyn ariannol 2020/2021 ynghyd â holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynion y cyfrifon hynny. Bydd modd gwneud hyn yn Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd, yn ystod y cyfnod 19 Gorffennaf i 13 Awst 2021, dydd Llun i Gwener bob wythnos rhwng 9.00 y.b. a 4.30 y.p. Gyda nifer o staff yn parhau i weithio o'u cartref yn sgil y pandemig COVID-19, os am archwilio'r cyfrifon yna dylid cysylltu un ai drwy e-bost [Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru](mailto:Trysorydd@gwynedd.llyw.cymru) neu ffonio (01766) 771 000 yn y lle cyntaf i drefnu apwyntiad. Bydd Datganiad o'r Cyfrifon hefyd ar gael ar ein gwefan [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)
2. Archwilydd y cyfrifon yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
3. Ar 16 Awst 2021, neu wedi hynny, bydd hawl gan etholwyr llywodraeth leol Cyngorau Gwynedd, Conwy a Môn i ofyn i'r Archwilydd roi cyfle iddynt neu'u cynrychiolwyr ei holi am y cyfrifon a'r hawl i gyfarfod gydag ef ac i gyflwyno gwrthwynebiadau:
  - ar y sail fod unrhyw eitem yn y cyfrifon yn torri'r gyfraith, bod rhywun wedi hepgor unrhyw swm yn y cyfrif y dylid fod wedi'i gynnwys neu y bu colled neu ddiffyg oherwydd camymddygiad bwriadol ar ran unrhyw berson; neu
  - unrhyw fater y sylwodd yr Archwilydd arno yn ystod yr archwiliad ac y gallai adrodd arno er budd y cyhoedd.
4. Serch hynny, ni ellir gwrthwynebu oni bai fod yr Archwilydd yn y lle cyntaf wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig am hynny ac yn nodi'r rhesymau dros wrthwynebu. Yr un pryd ag yr anfonir rhybudd gwrthwynebu i'r Archwilydd, rhaid anfon copi o'r rhybudd i Gyngor Gwynedd i'r cyfeiriad isod.

Dyddiedig: Mehefin 2021

Dafydd L. Edwards  
Pennaeth Cyllid  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfeydd y Cyngor  
Stryd y Jêl  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH